## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i’r:** **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Dyddiad:** **28.02.2024**

**Teitl:** **Protocol Drafft ar gyfer Cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau aml-aelod**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Ystyried y protocol drafft**

**Cefndir**
Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru yn nodi, os caiff swyddogaethau eu dirprwyo i Gynghorwyr o fewn yr un ward, efallai y bydd cynghorau'n dymuno cynhyrchu canllawiau a chymorth gyda'r nod o sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn wardiau yn cael eu cydlynu a'u cydategu gan wella canlyniadau i bobl leol.

Nod y Protocol Drafft yw gosod canllawiau a phrotocolau clir i Gynghorwyr a thrigolion yr effeithir arnynt mewn Wardiau Aml-Aelod er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a dyblygu ymdrech.

Nodir fodd bynnag fod y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau Gweithredol (Rhan 4 Dogfen I) yn nodi:

*Bydd y rhai sy'n siarad yn cael hyd at 5 munud yr un i siarad.*
*Mae hyn yn cynnwys:*
- *Ymgeisydd/Asiant*
- *Gwrthwynebydd*
- *Cynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned*
- *Aelod ward lleol*

Felly, cynigir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell bod Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ystyried drwy weithdy, p'un a yw'r 5 munud a ganiateir ar gyfer Aelodau Ward Lleol yn cael eu rhannu, neu 5 munud yr un.

**Argymhellion:**
a) **I gymeradwyo'r Protocol Drafft ar gyfer Cynghorwyr sy'n Cynrychioli Wardiau Aml-Aelod i’w ddosbarthu i’r holl gynghorwyr**
b) **I argymell bod Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ystyried geiriad y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau Gweithredol, Rhan 4 Dogfen I**

**Atodiadau:**
Dim

**Dogfennau cefndir:**
Canllawiau statudol ac anstatudol ar gyfer Prif Gyngor Cymru

**Enw:**
Lowri Edwards

**Teitl Swydd:**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:** 22.01.2024